

Aelodau

Yr Athro Robert Bell

Yr Athro Robert Bell yw cyfarwyddwr AMEC Earth and Environmental, cwmni o ymgynghorwyr amgylcheddol amlddisgyblaethol gyda swyddfeydd ledled y DU. Dilynodd gwrs Botaneg a Thechnoleg Planhigion yng Ngholeg Imperial, Prifysgol Llundain, cyn mynd ati i ymchwilio i effeithiau llygryddion aer fel rhan o'i Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae'n Athro Anrhydeddus ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe.

Ym 1985, aeth yr Athro Bell ar secondiad i 'United States Environment Protection Agency' fel gwyddonydd ar ymweliad. Yn sgil hynny, derbyniodd wobwr STAR (Scientific and Technological Achievement) am ei waith ar ymddygiad amgylcheddol a thynged llygryddion organig di-ionig. Mae wedi derbyn amrywiaeth o ddyfarniadau gan NATO i gymryd rhan mewn teithiau astudio ac astudiaethau peilot dan drefniant pwyllgor NATO yn ymwneud â glanhau llygredd amgylcheddol a thynged llygryddion.

Yn ogystal â'i ddyletswydd gyda Phwyllgor Ymgynghorol Bwyd Cymru, mae'r Athro Bell yn aelod o bwyllgor cynghori Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar Ddiogelu'r Amgylchedd, ac aelod o bwyllgor risg ac archwilio'r Gwasanaeth Hylendid Cig. Mae'n aelod o yngor ardystio 'Goodcorporation.com.'

Mae Robert Bell yn briod ag un ferch sydd yn yr ysgol.

Yr Athro Margaret Griffiths

Athro yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Morgannwg, Trefforest, Pontypridd yw Margaret Griffiths. Mae ganddi ddiddordeb oes ym mhob agwedd ar gyfraith y defnyddwyr, gan addysgu ac ysgrifennu'n helaeth yn y maes hwn. Ymhlith ei chyhoeddiadau mae llyfr a ysgrifennodd ar y cyd am Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, ac un arall am gyfraith y defnyddwyr, sy'n cynnwys pennod ar gyfraith fwyd yn benodol.

Mae gan yr Athro Griffiths gryn brofiad ymarferol mewn materion y defnyddwyr, ar ôl gweithio gydag Adran Safonau Masnach Morgannwg Ganol am 7 mlynedd, ac mae ganddi ddiddordeb byw o hyd mewn materion gorfodi a'r modd y gellir defnyddio'r gyfraith fel mecanwaith i hyrwyddo safonau a diogelwch. O barhau i ddatblygu deddfau priodol yn ymwneud â chynhyrchu,

paratoi, cadw a gwerthu bwyd, mae Margaret yn credu y gellir defnyddio hyn i bwysleisio safonau uchel y gadwyn fwyd o'r pridd i'r plât.

Mae Margaret yn gredwr cryf yng ngwerth addysg defnyddwyr i bawb o bob oed, ac y gallai - a bod hyn – yn chwarae rhan allweddol wrth ennyn hyder y defnyddwyr ym mhob agwedd ar ddiogelwch bwyd gan gynnwys prynu, cadw a pharatoi bwyd.

Ms Kate Hovers

Mae Kate Hovers yn Filfeddyg wedi'i lleoli yn ardal Aberhonddu. Fe raddiodd o Lerpwl yn 1983 ac ennill tystysgrif mewn iechyd a chynhyrchu defaid yn 1996. Bu'n rhedeg ei phractis rhywogaethau cymysg ei hun am 13 mlynedd. Mae nawr yn gweithio fel ymgynghorydd defaid, milfeddyg locwm ac ymgynghorydd milfeddygol rhan amser ar anifeiliaid mawr i gwmni fferyllol. Mae'n ysgrifennu ambell i erthygl ar gyfer y wasg ffermio ac yn rhoi sgrysiâu, fel arfer ar iechyd defaid a meddyginiaeth amddiffynnol. Mae hi'n gyn-arweinydd ar Gymdeithas y Milfeddygon Defaid ac adran De Cymru o Gymdeithas Milfeddygon Prydain. Mae'n byw ac yn helpu ar fferm ddefaid ei phartner ym Mannau Brycheiniog.

Mr Andrew Johnson

Mae gan Mr Johnson lond gwlad o wybodaeth am y diwydiant bwyd, ac yntau wedi bod yn prynu nwyddau ar ran dwy archfarchnad enwog ers dros 18 mlynedd. Bu'n gysylltiedig â datblygu strategaethau i wella'r gadwyn fwyd, safonau lles anifeiliaid a dewis defnyddwyr. Mae Andrew, sy'n byw yn y brifddinas, yn rhannu'i ddyletswyddau rhwng magu ei ferch ysgol a gwneud gwaith ymgynghorol rhan-amser ar ran y diwydiant bwyd ffres.

Yr Athro James Parry

Athro Geneteg Prifysgol Cymru, Abertawe. Mae diddordebau ymchwil Jim Parry yn canolbwyntio ar y mecanweithiau hynny lle mae cemegolion (naturiol a synthetig) yn rhyngweithio gyda chelloedd i greu mwntaniad a allai arwain at ganser a/neu nam geni. Tocsicoleg Geneteg yw enw'r maes ymchwil hwn, sef astudiaeth o gemegolion neu ymbelydreddau sy'n wenwynig i'r genom dynol.

Ar hyn o bryd, mae llawer o waith ymchwil yr Athro Parry yn cynnwys asesu'r peryglon posib o fod yn agored i lefelau isel o asiantau genotocseg a nodi'r ffactorau a allai arwain at ymwrthedd a diffyg ymwrthedd.

Mae'r Athro Parry wedi gweithio'n helaeth yn rhoi cyngor ar ddiogelwch cemegol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar hyn o bryd, fe yw Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Adran Iechyd y DU ar Gemegolion Mwtagenaid mewn Bwyd a'r Amgylchedd, ac mae hefyd yn aelod o'i chwaer bwyllgor ar Gemegolion Carsinogenaid. Mae'r Athro Parry hefyd yn aelod o Weithgor Ewropeaidd arbennig ar Blaladdwyr Carsinogenaid Posib sy'n cynghori Pwyllgor Gwyddonol y Comisiwn Ewropeaidd ar Gynhyrchion Diogelu

Planhigion. Yn y DU, mae'n aelod o Banel Meddygol a Thocsicoleg y Pwyllgor Cynghori ar Blaladdwyr.

Yn ystod 20 mlynedd o waith ymchwil ym maes Tocsicoleg Geneteg, mae'r Athro Parry wedi'i ethol yn Llywydd Cymdeithas 'Environmental Mutagen' Ewrop a'r DU - y cyrff proffesiynol sy'n hyrwyddo gwaith ymchwil sy'n nodi ac yn cael gwared ar beryglon mwtagenaidd o'r byd o'n cwmpas, gan gynnwys ein bwyd.

Yr Athro Robert Pickard

Mae Robert Pickard yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Sefydliad Maethiad Prydain, Athro Emeritws Niwrobiolog ym Mhrifysgol Caerdydd; Athro gwadd yn y Coleg Amaethyddol Brenhinol, Cirencester; ac yn gyn-gadeirydd tasglu'r llywodraeth, *Food's Contribution to Health in the Future*. Mae hefyd yn Gadeirydd ar Gymdeithas y Defnyddwyr, *Which?*, a'r Fforwm anllywodraethol, sy'n hwyluso'r cysylltiad rhwng 92 o sefydliadau a'r Adran Iechyd. Ar Gyngor Rhwydwaith Adnoddau Gwybodaeth Bwyd Ewrop, EuroFIR, mae'n helpu i gydgyssylltu'r gwaith ar gyfansoddi cronfeydd data ar gyfer 21,000 o fwydydd mewn 47 o sefydliadau mewn 25 o wledydd gwahanol. Yn broffesiynol, mae'n awdurdod rhyngwladol ar fioleg gwenyn ac wedi arloesi wrth ddatblygu microbiosynwryddion nerfol, solet, yn y DU. Mae'n Gymrawd y Sefydliad Bioleg a'r Gymdeithas Feddygol Frenhinol.

Dr Louise Fielding

Pennaeth Adran Gwyddorau Bywyd Cymhwysol yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yw Louise Fielding. Enillodd Dr Fielding radd BSc (Anrhydedd) mewn Technoleg Bwyd (1990) a PhD mewn Microbioleg Bwyd (1995) o Brifysgol Reading. Mae'n addysgu israddedigion ac ôl-raddedigion mewn hylendid a microbioleg bwyd, biotechnoleg bwyd, prosesu bwyd a diogelwch bwyd cymhwysol. Mae Dr Fielding hefyd yn goruchwylio nifer o ymchwilwyr mewn meysydd fel dadlygru bioaerosol, systemau rheoli ansawdd mewn busnesau cynhyrchu bwyd bach ac agweddau cymhwysol ar lanhau a dadlygru.

Mae Dr Fielding yn archwilydd trydydd parti cymwys i Safon Bwyd Byd-eang Consortiwm Manwerthu Prydain. Mae'n Gymrawd y Sefydliad Gwyddoniaeth a Technoleg Bwyd, yn aelod o bwyllgor Grŵp Datblygu Proffesiynol Ansawdd a Diogelwch Dŵr y Gymdeithas Ryngwladol er Diogelwch Bwyd (IAFP) ac yn Is-lywydd cangen yr IAFP yn y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn aelod o'r Gymdeithas ar gyfer Microbioleg Gymhwysol a Chymdeithas Microbioleg Cymru.

Mrs Katie Palmer

Fel Swyddog Arweiniol Prosiectau Bwyd adventa Cyngor Sir Fynwy, Katie oedd yn gyfrifol am arwain prosiectau bwyd busnesau a chymunedau. Bu'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau peilot ac i sicrhau cyllid ar gyfer agwedd "ysgol gyfan" at brydau ysgol yn Sir Fynwy. Roedd yn rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu'r gadwyn fwyd leol, gan annog busnesau a chymunedau lleol i rwydweithio a defnyddio cynnyrch lleol.

Yn ystod ei phum mlynedd yn y diwydiant llaeth rhyngwladol bu Katie'n gweithio gyda nifer o fusnesau bwyd amlwg i ddatblygu cynhyrchion newydd a'u cyflwyno i'r farchnad. Roedd ei swyddogaeth datblygu busnes yn Volac International yn gofyn iddi ddefnyddio sgiliau gwyddoniaeth technegol a marchnata i ddatblygu'r farchnad ar gyfer protein maidd yn Ewrop ac America. Yn y swydd hon, datblygodd ddealltwriaeth gref o ddeddfwriaeth bwyd, yn enwedig yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau yn y DU pan gafodd rheoliadau bwyd eu tynhau'n sylweddol.

Mae gan Katie radd dosbarth cyntaf mewn Bioleg a gradd Meistr Gwyddoniaeth mewn Maethiad ac mae'n aelod o'r Gymdeithas Faethiad. Mae'n hoff o goginio, mynd allan i fwyta a rhannu'r pleserau hyn gyda'i theulu.